From: **edwvalleydesigns** info@edwvalleydesigns.co.uk
Subject:
Date: 27 June 2020 at 12:04
To:




**Ffigurau Covid-19**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi bod 100 o achosion newydd o'r coronafeirws wedi'i gadarnhau yng Nghymru, gan ddod â chyfanswm yr achosion i 15,126 gydag un achos newydd ym Mhowys. Cyfanswm yr achosion yn y sir yw 297, er mae'r ffigwr hwnnw'n debygol o fod yn llawer uwch.

Yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar nifer y rhai fu farw ym Mhowys o ganlyniad i'r COVID-19 neu'n rhannol ar 13 Mehefin oedd 89 **–** 46 mewn cartrefi gofal, 36 mewn ysbytai a saith gartref.

**Strydoedd mawr Powys i ail-agor yn ddiogel**

Mae paratoadau ar droed i ail-agor canol y trefi'n ddiogel heddiw yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru bod siopa dianghenraid yn gallu ail-gychwyn yng Nghymru.

Mae Cyngor Sir Powys yn rhoi mesurau perthnasol mewn lle i sicrhau y gall busnesau agor yn ddiogel dros y cyfnod heriol hwn wrth i nifer agor eu drysau eto.

Anogir busnesau i ymgyfarwyddo â'r canllawiau diweddaraf ac i gymryd y rhagofalon angenrheidiol.

**Powys yn cefnogi Gogledd Cymru**

Mae staff Powys wedi bod yn rhoi help llaw i gydweithwyr yng Ngogledd Cymru fel rhan o fenter profi, tracio ac olrhain. Mae staff wedi bod yn helpu cydweithwyr yn Wrecsam er mwyn i staff Gogledd Cymru ganolbwyntio ar ymateb i'r achosion yng Ngwynedd a Sir Fôn lle mae dros 150 o bobl wedi profi'n bositif i'r COVID 19

**Llywodraeth Cymru**

Ar ddydd Gwener 19 Mehefin, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, becyn o fesurau i lacio rheoliadau coronafeirws Cymru ymhellach. Mae'r newidiadau'n canolbwyntio'n bennaf ar economi a system addysg Cymru.

Bydd Gweinidogion yn codi'r gofyn i aros yn lleol ar 6 Gorffennaf os bydd yr amodau'n caniatáu.

Mae Prif Weinidog Cymru hefyd wedi sôn y dylai sector twristiaeth Cymru a siopau trin gwallt ddechrau gwneud paratoadau i ail-agor yn dilyn yr arolwg statudol nesaf ar 9 Gorffennaf.

Mwy o wybodaeth: https://llyw.cymru/prif-weinidog-cymru-yn-cyhoeddi-camau-pellach-i-lacior-cyfyngiadau

Cwestiynau Cyson: https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-canllawiau

£15 miliwn ar gyfer teithio di-Covid'. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pecyn newydd o arian i greu mwy o le i bobl deithio dan gyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol. Bydd cynghorau'n derbyn buddsoddiad ar gyfer cynlluniau i ledu palmentydd a chreu mwy o le i seiclwyr i wreiddio'r arferion newydd hyn i'r tymor hir.

https://llyw.cymru/15-miliwn-ar-gyfer-teithio-di-covid

Cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd, Vaughan Gethin y bydd yna raglen beilot i fesur lefelau coronafeirws mewn gwaith trin dŵr gwastraff. Mae rhaglen beilot i dynnu sylw at arwyddion cynnar o'r coronafeirws yng nghymunedau Cymru trwy fonitro systemau carthffosiaeth, wedi derbyn bron i hanner miliwn o bunnoedd.

https://llyw.cymru/rhaglen-beilot-i-fesur-lefelau-coronafeirws-mewn-gwaith-trin-dwr-gwastraff

Rhybudd i rieni am y risg o ddiabetes sydd heb ddiagnosis ymysg plant a phobl ifanc. Mae plant mewn perygl o niwed difrifol o ddiabetes sydd heb ddiagnosis os bydd rhieni'n osgoi ceisio cyngor meddygol oherwydd eu bod yn ofni'r Coronafeirws.

https://llyw.cymru/rhybudd-i-rieni-ynglyn-pherygl-diabetes-heb-ddiagnosis-ymhlith-plant-phobl-ifanc

———————————————

- Rheoliadau coronafeirws - cwestiynau cyffredin

**Covid-19 figures**

Public Health Wales has reported a further 100 new confirmed cases of coronavirus in Wales, bringing the total number of cases to 15,126, with one new cases in Powys, the total for the county stands at 297 cases although the figure is likely to be much higher.

Figures issued by the Office of National Statistics (ONS) on the number of deaths in Powys attributed, either wholly or in part to COVID-19, as at June 13 was 89 – 46 in care homes, 36 in hospital and seven at home.

**Powys high streets to safely reopen**

Preparations are underway to safely reopen town centres today following Welsh Government's announcement that non-essential retail can resume in Wales.

Powys County Council is putting the appropriate measures in place to ensure businesses are supported to operate safely at this challenging time as many open their doors again.

Businesses are being urged to familiarise themselves with the latest guidance and take the necessary precautions.

**Powys support North Wales**

Powys staff have been providing mutual aid to colleagues in North Wales as part of the Test, Track and Protect initiative. Staff have been supporting colleagues in Wrexham allowing North Wales staff to focus on responding to the major outbreak in Gwynedd and Anglesey when more than 150 people have tested positive for COVID19.

**Welsh Government**

On Friday 19 June First Minister Mark Drakeford announced a package of measures to further unlock Wales' coronavirus regulations. The changes focus mainly on Wales' economy and education system.

Ministers will lift the stay local requirement on July 6, if conditions allow it.

The First Minister has also signalled that Wales' tourism sector and hairdressers should begin to make preparations to reopen following the next statutory review on 9 July.

More information: https://gov.wales/first-minister-announces-further-steps-to-unlock-wales

Frequently asked questions: https://gov.wales/coronavirus-regulations-changes-monday-22-june

£15 million for 'Covid-proof' travel**.** A major new package of funding has been announced by Welsh Government to create more space for people to travel under social distancing restrictions. Councils will get investment for schemes that widen pavements and create more space for cyclists to embed those new habits for the long-term.

https://gov.wales/15-million-covid-proof-travel

Pilot programme to measure coronavirus prevalence in waste water treatment plants. A pilot programme which will flag early signs of the coronavirus in Welsh communities by monitoring sewage systems, has been awarded almost half a million pounds - the Health Minister Vaughan Gething has confirmed.

https://gov.wales/pilot-programme-measure-coronavirus-prevalence-waste-water-treatment-plants

Warning to parents about the risk of undiagnosed diabetes among children and young people. Children are at risk of serious harm from undiagnosed diabetes if parents avoid seeking medical advice over fears of exposing them to Coronavirus.

https://gov.wales/warning-parents-about-risk-undiagnosed-diabetes-among-children-and-young-people

-———————————————

- Coronavirus regulations: frequently asked questions
- FAQs for higher and further education
- Written statement on the availability of PPE

- Cwestiynau cyson ar addysg bellach ac uwch
- Datganiad ysgrifenedig ar PPE sydd ar gael
- Cwestiynau cyson ar rol ysgolion dros y pandemig.

Mwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru - https://gov.wales/coronavirus

**I weld manylion y camau allweddol blaenorol ewch i:**https://cy.powys.gov.uk/coronafeirws/camauallweddol

- FAQs on the role of schools during the coronavirus pandemic.

More information from Welsh Government - https://gov.wales/coronavirus

**For previous actions visit:**https://en.powys.gov.uk/coronavirus/pcckeyactions

Mae'r e bost hwn ac unrhyw atodiad iddo yn gyfrinachol ac fe'i bwriedir ar gyfer y sawl a enwir arno yn unig. Gall gynnwys gwybodaeth freintiedig. Os yw wedi eich cyrraedd trwy gamgymeriad ni ellwch ei gopio, ei ddosbarthu na'i ddangos i unrhyw un arall a dylech gysylltu gyda Cyngor Sir Powys ar unwaith. Mae unrhyw gynnwys nad yw'n ymwneud gyda busnes swyddogol Cyngor Sir Powys yn bersonol i'r awdur ac nid yw'n awdurdodedig gan y Cyngor.

This e mail and any attachments are confidential and intended for the named recipient only. The content may contain privileged information. If it has reached you by mistake, you should not copy, distribute or show the content to anyone but should contact Powys County Council at once. Any content that is not pertinent to Powys County Council business is personal to the author, and is not necessarily the view of the Council.